## ATODLEN 1

[F2 Rheoliad 12]

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CAIS AM [F1 uwchblanhigion a addaswyd yn enetig at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â marchnata] NEU FARCHNATA UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 1 pennawd wedi eu hamnewid (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(2)**

**F2** Atod. 1 wedi ei amnewid (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(3)**

# Rhan I

## GWYBODAETH GYFFREDINOL

**1.** Enw a chyfeiriad y ceisydd, ac enw, cymwysterau a phrofiad y gwyddonydd a phob person arall a fydd yn gyfrifol am gynllunio ac am ollwng yr organeddau, ac am oruchwylio a monitro'r gollyngiad, ac am ei ddiogelwch.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**2.** Teitl y prosiect.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan II

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Å'R PLANHIGION RHIENIOL NEU'R PLANHIGYN DERBYN

**3.** Enw llawn y planhigyn—

(a) enw teuluol,

(b) genws,

(c) rhywogaeth,

(ch) isrywogaeth,

(d) llinell cyltifar/fridio,

(dd) enw cyffredin.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**4.** Gwybodaeth ynghylch—

(a) atgenhedliad y planhigyn:

(i) dull neu ddulliau atgenhedlu,

(ii) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar atgenhedlu,

(iii) amser cenhedliad; a

(b) cydweddoldeb rhywiol y planhigyn â rhywogaethau a gafodd eu trin neu rywogaethau planhigion gwyllt eraill gan gynnwys dosbarthiad y rhywogaeth gydweddol yn Ewrop.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**5.** Gwybodaeth ynghylch gallu'r planhigyn i oroesi:

(a) ei allu i ffurfio strwythurau i oroesi neu ar gyfer cysgadrwydd,

(b) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar ei allu i oroesi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**6.** Gwybodaeth ynghylch gwasgariad y planhigyn:

(a) dull a hyd a lled (megis brasamcan o sut y mae paill a/neu hadau hyfyw yn dirywio dros bellter pan fo hynny'n gymwys) y gwasgariad; a

(b) unrhyw ffactorau penodol sy'n effeithio ar wasgariad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**7.** Dosbarthiad daearyddol y planhigyn **[**[F3]yn Ewrop**]** .

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Geiriau yn Atod. 1 para. 7 wedi eu mewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(4)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**8.** Pan fo'r cais yn ymwneud â rhywogaeth planhigyn nad yw'n cael ei dyfu yn arferol yn y Deyrnas Unedig, disgrifiad o gynefin naturiol y planhigyn, gan gynnwys gwybodaeth am ysglyfaethwyr naturiol, parasitiaid, cystadleuwyr a symbontiaid.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**9.** Unrhyw ryngweithiadau posibl eraill, sy'n berthnasol i'r organedd a addaswyd yn enetig, rhwng y planhigyn ag organeddau yn yr ecosystem lle caiff ei dyfu'n arferol, gan gynnwys gwybodaeth am effeithiau gwenwynig ar bobl, anifeiliaid ac organeddau eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 1 para. 9 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan III

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R ADDASIAD GENETIG

**10.** Disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr addasiad genetig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 1 para. 10 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**11.** Natur a ffynhonnell y fector a ddefnyddiwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 1 para. 11 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**12.** Maint, swyddogaeth arfaethedig ac enw'r organedd neu'r organeddau rhoi pob rhan cyfansoddol o'r rhanbarth lle bwriedir eu cynnwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. 1 para. 12 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan IV

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R PLANHIGYN A ADDASWYD YN ENETIG

**13.** Disgrifiad o nodwedd neu nodweddion y planhigyn a addaswyd yn enetig sydd wedi'u cyflwyno neu wedi'u haddasu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 1 para. 13 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**14.** Yr wybodaeth ganlynol am y dilyniannau a fewnroddwyd neu a ddilewyd:

(a) maint a strwythur y mewnosodiad a'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer ei nodweddiad, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw rannau o'r fector a gyflwynwyd i'r planhigyn a addaswyd yn enetig neu unrhyw gariwr neu DNA estron sy'n dal i fod yn y planhigyn a addaswyd yn enetig ,

(b) maint a swyddogaeth y rhanbarth neu'r rhanbarthau a ddilewyd,

(c) rhif copi y mewnosodiad, a

(ch) lleoliad neu leoliadau y mewnosodiad neu'r mewnosodiadau yng nghelloedd y planhigyn (p'un a ydyw wedi'i integreiddio yn y cromosom, y cloroplastau, y mitocondria, neu ar ffurf anintegredig) a'r dulliau ar gyfer ei benderfynu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 1 para. 14 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**15.** Yr wybodaeth ganlynol am fynegi'r mewnosodiad—

(a) gwybodaeth am fynegiant datblygiadol y mewnosodiad yn ystod cylch bywyd y planhigyn a'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer ei nodweddiad,

(b) y rhannau o'r planhigyn lle mae'r mewnosodiad wedi'i fynegi, megis gwreiddiau, coesau neu baill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 1 para. 15 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**[**[F4]**15A.** Sefydlogrwydd genetig y mewnosodiad a sefydlogrwydd ffenotypig y planhigyn a addaswyd yn enetig.

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Atod. 1 parau. 15A, 15B wedi ei fewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(7)**

**15B.** Casgliadau am nodweddiad moleciwlaidd y planhigyn a addaswyd yn enetig.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Atod. 1 parau. 15A, 15B wedi ei fewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(7)**

**16.** Gwybodaeth ynghylch sut y mae'r planhigyn a addaswyd yn enetig yn wahanol mewn perthynas â'r planhigyn rhieiniol neu'r planhigyn derbyn o safbwynt y canlynol—

(a) modd neu foddau a/neu gyfradd yr atgenhedlu,

(b) gwasgariad,

(c) y gallu i oroesi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. 1 para. 16 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**17.** Sefydlogrwydd genetig y mewnosodiad a sefydlogrwydd ffenotypig y planhigyn a addaswyd yn enetig .

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 1 para. 17 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

[F5]**19.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

[F5]**20.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

[F5]**21.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

[F5]**22.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

[F5]**23.** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

**24.** Disgrifiad o dechnegau canfod ac adnabod ar gyfer y planhigyn a addaswyd yn enetig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. 1 para. 24 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**25.** Gwybodaeth ynghylch unrhyw ollyngiadau blaenorol o'r planhigyn a addaswyd yn enetig, os yw hynny'n gymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 1 para. 25 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

## RHAN 4A

### Gwybodaeth am feysydd penodol sy'n peri risg

[F5 **18.** Gwybodaeth am—

(a) unrhyw newid i barhausrwydd neu ymledoldeb y planhigyn a addaswyd yn enetig a'i allu i drosglwyddo deunydd genetig i berthnasau sy'n gydweddol yn rhywiol a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(b) unrhyw newid i allu'r planhigyn a addaswyd yn enetig i drosglwyddo deunydd genetig i ficro-organeddau a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(c) mecanwaith y rhyngweithio rhwng y planhigyn a addaswyd yn enetig a'r organeddau targed, os yw hynny'n gymwys, a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(ch) newidiadau posibl i ryngweithiadau'r planhigyn a addaswyd yn enetig ag organeddau heb fod yn organeddau targed o ganlyniad i'r addasiad genetig a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(d) newidiadau posibl i arferion amaethyddol a dulliau rheoli'r planhigyn a addaswyd yn enetig o ganlyniad i'r addasiad genetig, os yw hynny'n gymwys, a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(dd) y rhyngweithiadau posibl â'r amgylchedd anfiotig a'r effeithiau amgylcheddol andwyol sy'n deillio o hynny,

(e) unrhyw effeithiau gwenwynig, effeithiau alergenig neu effeithiau niweidiol eraill ar iechyd dynol sy'n deillio o'r addasiad genetig,

(f) casgliadau am y meysydd penodol sy'n peri risg.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Atod. 1 Rhn. 4A para. 18 wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 1 parau. 19-23 (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(9)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 1 para. 18 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan V

## GWYBODAETH YNGHYLCH SAFLE'R GOLLYNGIAD

F6 . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Geiriau yn Atod. 1 Rhn. V wedi eu hepgor (30.10.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(10)**

**26.** Lleoliad a maint safle'r gollyngiad neu safleoedd y gollyngiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 1 para. 26 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**27.** Disgrifiad o ecosystem safle'r gollyngiad, gan gynnwys hinsawdd, fflora a ffawna.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. 1 para. 27 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**28.** Manylion unrhyw rywogaethau perthnasau gwyllt neu rywogaethau planhigion trin sy'n gydweddol yn rhywiol ac yn bresennol yn safleoedd y gollyngiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 1 para. 28 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**29.** Agosrwydd safleoedd y gollyngiadau at fiotopau a gydnabyddir yn swyddogol neu ardaloedd gwarchodedig y gall gollyngiadau effeithio arnynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. 1 para. 29 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan VI

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â'R GOLLYNGIAD

F7...

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Geiriau yn Atod. 1 Rhn. VI wedi eu hepgor (30.10.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(11)**

**30.** Diben gollwng y planhigyn a addaswyd yn enetig, gan gynnwys ei ddefnydd cychwynnol ac unrhyw fwriad i'w ddefnyddio fel neu mewn cynnyrch yn y dyfodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. 1 para. 30 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**31.** Y dyddiad neu'r dyddiadau a ragwelir ar gyfer y gollwng a hyd y gollwng.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Atod. 1 para. 31 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**32.** Y dull a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gollwng y planhigion a addaswyd yn enetig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. 1 para. 32 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**33.** Y dull ar gyfer paratoi a rheoli safle'r gollyngiad, cyn, yn ystod ac yn dilyn y gollyngiad, gan gynnwys arferion amaethu a dulliau cynaeafu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** Atod. 1 para. 33 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**34.** Bras amcan o nifer y planhigion a addaswyd yn enetig (neu blanhigion fesul m2) sydd i'w gollwng.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Atod. 1 para. 34 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan VII

## GWYBODAETH AM REOLI, MONITRO, CYNLLUNIAU ÔL-OLLWNG A THRIN GWASTRAFF

*F8*...

**Diwygiadau Testunol**

**F8** Geiriau yn Atod. 1 Rhn. VII wedi eu hepgor (30.10.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **6(12)**

**35.** Disgrifiad o—

(a) unrhyw ragofalon i gadw'r planhigyn a addaswyd yn enetig bellter i ffwrdd o rywogaethau planhigion sy'n gydnaws o ran rhyw, perthnasau gwyllt a chnydau.

(b) unrhyw fesurau i leihau neu atal gwasgariad unrhyw organ atgenhedlu y planhigyn a addaswyd yn enetig (megis paill, hadau, cloronen).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Atod. 1 para. 35 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**36.** Disgrifiad o'r dulliau ar gyfer trin y safle neu'r safleoedd ar ôl y gollyngiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Atod. 1 para. 36 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**37.** Disgrifiad o ddulliau trin y deunydd planhigion a addaswyd yn enetig gan gynnwys gwastraff ar ôl y gollyngiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Atod. 1 para. 37 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**38.** Disgrifiad o gynlluniau a thechnegau monitro.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Atod. 1 para. 38 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**39.** Disgrifiad o unrhyw gynlluniau argyfwng.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Atod. 1 para. 39 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**40.** Dulliau a gweithdrefnau i ddiogelu'r safle.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Atod. 1 para. 40 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

# Rhan VIII

## GWYBODAETH AM FETHODOLEG

**41.** Disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd neu gyfeiriad at y dulliau safonol neu'r dulliau wedi'u cydnabod yn rhyngwladol a ddefnyddiwyd i grynhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan yr Atodlen hon, ac enw'r corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am gynnal yr astudiaethau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Atod. 1 para. 41 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Organeddau A Addaswyd Yn Enetig (Eu Gollwng Yn Fwriadol) (Cymru) 2002. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 16(1)(e) substituted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(e) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(1)(g) omitted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(f) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(1)(aa) inserted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(b) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(2) inserted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(g) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))